cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

2024/25

# PTL1 Ffurflen gais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Cwrs ar gyfer myfyrwyr rhan-amser newydd

Rydym yn croesawu ceisiadau Cymraeg. Ni fydd ymgeisio yn Gymraeg yn oedi.
Gallwch wneud cais ar-lein hefyd yn **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

## Ynglŷn â'r ffurflen hon

**Pwy ddylai lenwi'r ffurflen hon?**

Dylech lenwi'r ffurflen hon os ydych yn byw yng Nghymru ac:

- rydych yn fyfyriwr rhan-amser neu'n fyfyriwr gyda'r Brifysgol Agored ac yn gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr am y tro cyntaf
- mae dyddiad cychwyn eich cwrs ar neu wedi 1 Medi 2014 ond cyn 1 Awst 2018.

**Pa adrannau ddylech chi eu llenwi?**

Bydd angen i **bob myfyriwr** lenwi adrannau **1 i 4** a darllen, llofnodi a dyddio'r telerau ac amodau.

Bydd angen i chi lenwi adrannau eraill yn y ffurflen hefyd, gan ddibynnu ar beth ydych yn dymuno gwneud cais amdano.

| | |
|---|---|
| Myfyrwyr sy'n gwneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu yn unig | Dylech lenwi adran **5 & 9** |
| Myfyrwyr sy'n gwneud cais am Grant Cwrs yn unig | Dylech lenwi adrannau **6 i 9** |
| Myfyrwyr sy'n gwneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu **a** Grant Cwrs | Dylech lenwi adrannau **5 i 9** |

**Dwyster y cwrs**

Cyn gwneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu a/neu Grant Cwrs, bydd angen i chi wybod beth yw dwyster eich cwrs. Dwyster cwrs yw hyd y cyfnod y mae'n ei gymryd i chi gwblhau'ch cwrs rhan-amser o'i gymharu â'r cwrs amser llawn cyfatebol. Os nad ydych yn siŵr beth yw dwyster eich cwrs, holwch eich prifysgol neu'ch coleg.

I wneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu, bydd angen i ddwyster eich cwrs fod yn **25%** o leiaf yn ystod y flwyddyn academaidd.

I wneud cais am Grant Cwrs, bydd angen i ddwyster eich cwrs fod yn **50%** o leiaf yn ystod y flwyddyn academaidd.

**Cyllid i fyfyrwyr ychwanegol**

Efallai y bydd modd i chi wneud cais am gymorth ariannol ychwanegol hefyd:

- os oes gennych chi blant neu oedolion sy'n dibynnu arnoch yn ariannol
- os oes gennych chi anabledd, cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol.

Os ydych yn dymuno gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr ychwanegol, bydd angen i chi ddweud wrthym ar dudalen 2.

Gallwch gael gwybod mwy am gyllid i fyfyrwyr a lawrlwytho ein canllawiau ar gyfer myfyrwyr rhan-amser trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

# Cyllid i fyfyrwyr ychwanegol

## Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA)

Os hoffech wneud cais am DSA, bydd angen i chi:

- lenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd **a**
- llenwi Ffurflen Gais am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA1).
  Gallwch lawrlwytho ffurflen DSA1 trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Ticiwch y blwch isod os ydych yn dymuno i ni anfon ffurflen DSA atoch yn lle hynny.

☐ Anfonwch ffurflen DSA ataf

## Lwfans Dysgu i Rieni (PLA) a Grant Oedolion Dibynnol (ADG)

Os ydych yn dymuno gwneud cais am PLA neu ADG, bydd angen i chi:

- lenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd **a**
- llenwi Ffurflen Gais am Grantiau Dibynyddion ar gyfer Myfyrwyr Rhan-amser (PTGFD).
  Gallwch lawrlwytho ffurflen PTGFD trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Ticiwch y blwch isod os hoffech i ni anfon ffurflen PTGFD atoch yn lle hynny.

☐ Anfonwch ffurflen PTGFD ataf

## Grant Gofal Plant (CCG)

Os ydych eisiau gwneud cais am CCG, bydd angen i chi:

- lenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd **a**
- llenwi Ffurflen Gais am Grantiau Dibynyddion ar gyfer Myfyrwyr Rhan-amser (PTGFD) a Ffurflen Cais Am Help i dalu Costau Gofal Plant ar gyfer Myfyrwyr Rhan-amser (PTCCG1). Gallwch lawrlwytho ffurflen PTGFD a PTCCG1 trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Ticiwch y blwch isod os hoffech i ni anfon ffurflen PTGFD a PTCCG1 atoch yn lle hynny.

☐ Anfonwch ffurflen PTGFD a PTCCG1 ataf

I gael gwybod sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch, ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd** i ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn llenwi'r ffurflen hon.

Efallai y byddwch yn gymwys am fwrsariaeth neu ysgoloriaeth. Er mwyn i brifysgol neu goleg allu pennu a thalu unrhyw fwrsariaeth neu ysgoloriaeth y bydd gennych hawl iddo, byddwn yn rhannu rhywfaint o'ch manylion personol, ariannol a chwrs yn ogystal â gwybodaeth am eich cymhwyster am gyllid i fyfyrwyr gyda nhw.

**Os bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn gofyn amdani ar goll neu'n aneglur, efallai na fydd modd i ni brosesu'ch cais ac ni fyddwch yn cael unrhyw gyllid.**

# 1 Eich manylion personol

**1.1 Cyfeirnod Cwsmer** ⓖ

(os oes gennych chi un)

Pan welwch yr eicon hwn, mae'n golygu bod gwybodaeth i'ch helpu yn y nodiadau ymgeisio am Fenthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Cwrs sy'n cyd-fynd â'r ffurflen hon. ⓖ

**1.2 Manylion personol**

Dylech nodi'r manylion hyn yn union fel y maent yn ymddangos ar eich tystysgrif geni neu'ch pasbort.

Os yw'ch enw wedi newid o'r hyn sy'n ymddangos yn eich tystysgrif geni neu'ch pasbort, anfonwch dystiolaeth gynorthwyol atom sy'n cadarnhau'r newid. Dylech gynnwys nodyn am unrhyw enwau blaenorol a fu gennych chi ar ddarn o bapur ar wahân a'i atodi i'r ffurflen hon. ⓣ

Pan welwch yr eicon hwn, mae'n golygu bod angen i chi anfon dogfennau fel tystiolaeth gynorthwyol. Gallwch weld manylion yn y nodiadau sy'n cyd-fynd â'r ffurflen hon. ⓣ

Teitl

☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms

Enw cyntaf

Cyfenw

Rhyw

☐ Gwryw ☐ Benyw

Dyddiad geni

Diwrnod Mis Blwyddyn

Man geni (enw'r dref neu'r pentref)

Cenedligrwydd

**1.3 Rhif Yswiriant Gwladol** ⓖ

Byddwn yn rhannu'r Rhif Yswiriant Gwladol a roddwch gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gadarnhau ei fod yn ddilys, a gyda Chyllid a Thollau EM i'n galluogi i gasglu eich ad-daliadau.

☐☐ - ☐☐☐☐☐☐ - ☐

**1.4 A ydych yn meddu ar basbort dilys y DU?**

Rhaid i chi brofi pwy ydych chi. Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw trwy ddarparu gwybodaeth o'ch pasbort.

Byddwn yn rhannu'r manylion pasbort a roddwch gyda Swyddfa Basbort EM i gadarnhau eu bod yn ddilys.

☐ **Nac ydw** – bydd angen i chi anfon tystiolaeth amgen ⓣ

☐ **Ydw** – dylech nodi'r manylion canlynol yn union fel y maent yn ymddangos ar eich pasbort

Dyddiad cyhoeddi

Diwrnod Mis Blwyddyn

Dyddiad dod i ben

Diwrnod Mis Blwyddyn

Rhif pasbort

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

**Pasbort y DU wedi dod i ben?** ⓣ

Os yw'ch pasbort y DU wedi dod i ben, ni fydd modd i ni dderbyn yr wybodaeth hon fel prawf o'ch manylion personol. Bydd yn rhaid i chi roi tystiolaeth arall fel yr esboniwyd yn y nodiadau sy'n cyd-fynd â'r ffurflen hon.

# 1 Eich manylion personol – parhad

**1.5 Manylion eich cyfeiriad**

Anfonir yr holl ohebiaeth a gyhoeddwn i'r cyfeiriad hwn. Gallwch ddiweddaru'ch cyfeiriad ar unrhyw adeg trwy fewngofnodi i'ch cyfrif arlein neu trwy'n ffonio.

Cyfeiriad cyswllt

Cod post

**1.5.1 Manylion cyswllt**

Nodwch eich manylion cyswllt presennol.

Rhif ffôn cyswllt

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad e-bost

**1.6 Pa iaith ydych yn dymuno i ni ei defnyddio yn y llythyrau y byddwn yn eu hanfon atoch?**

☐ **Cymraeg**
☐ **Saesneg**

**1.7 A ydych chi'n aelod o'r Lluoedd Arfog yn gwasanaethu tu allan i Gymru?** ⓖ ⓣ

☐ **Nac ydw**
☐ **Ydw**

**1.8 A ydych chi'n byw gydag aelod o'r teulu sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog tu allan i Gymru? (er enghraifft: cymar neu blentyn)** ⓖ ⓣ

☐ **Nac ydw**
☐ **Ydw**

# 2 Hanes cymorth a chymhwyso blaenorol

**2.1 A fyddwch yn cael unrhyw gyllid gan unrhyw ffynhonnell arall i dalu am eich ffioedd dysgu yn ystod y flwyddyn academaidd hon?**

Dywedwch wrthym am unrhyw gyfraniad a wnaethpwyd tuag at eich ffioedd dysgu gan gyflogwr, cynllun bwrsariaeth, neu gan unrhyw fath arall o gronfa neu nawdd. Sylwer nad oes angen i ni gael gwybod os ydych yn cael Bwrsariaeth Addysg Uwch i'r rhai sy'n Gadael Gofal.

☐ **Na fyddaf**
☐ **Byddaf** – nodwch y manylion

# 2 Hanes cymorth a chymhwyso blaenorol – parhad

**2.2** **A oes gennych radd oddi wrth sefydliad addysgiadol yn y DU?** ⓖ

- ☐ **Nac ydw**
- ☐ **Ydw** – Ai gradd anrhydedd yw hon?
  - ☐ **Nac ydw**
  - ☐ **Ydw**

**2.3** **A ydych chi erioed wedi cael unrhyw fenthyciadau eraill gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC)?**

- ☐ **Nac ydw**
- ☐ **Ydw** – a ydych chi ar ei hôl hi gyda'r ad-daliadau?
  - ☐ **Nac ydw**
  - ☐ **Ydw** – ni fydd modd i chi wneud cais am gyllid i fyfyrwyr nes i chi ddatrys hyn. Ffoniwch **0300 100 0611** am fenthyciadau Ad-dalu sy'n Dibynnu ar Incwm (ICR). Os oes gennych chi unrhyw fenthyciad Arddull Morgais (MS), ffoniwch berchennog eich dyled ar y rhif ffôn a ddangosir ar yr ohebiaeth ddiweddaraf yr ydych chi wedi ei chael ganddynt. Os nad ydych yn gwybod pwy yw perchennog eich dyled, ffoniwch **0300 100 0632** am gyngor.

**2.4** **A ydych chi wedi cael cyllid gan SLC am unrhyw gyrsiau rhan-amser blaenorol a astudiwyd gennych?**

- ☐ **Nac ydw** – ewch i adran 3
- ☐ **Ydw**

**2.4.1** **Llenwch y tabl gyda manylion unrhyw gyrsiau Addysg Uwch <u>rhan-amser</u> yr ydych wedi derbyn cyllid amdanynt yn flaenorol.**

| Teitl y cwrs a'r cymhwyster (er enghraifft, BA (Anrh) Saesneg) | Enw a chyfeiriad y brifysgol neu'r coleg (gan gynnwys y dref a'r wlad) | Dyddiad Cychwyn MM BBBB | Dyddiad Gorffen MM BBBB | Wedi sicrhau cymhwyster? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ☐ **Nac ydw** ☐ **Ydw** |
| | | | | ☐ **Nac ydw** ☐ **Ydw** |
| | | | | ☐ **Nac ydw** ☐ **Ydw** |

## 3 Manylion preswylio

**3.1 Ble ydych chi fel arfer yn byw pan nad ydych chi'n astudio?** ⓖ

Cartref

[ ]

Cod Post

[ ]

nawr ewch i 3.2

**3.2 A ydych yn ddinesydd y DU?** ⓖ

- ☐ **Nac ydw**
- ☐ **Ydw** – a wnaethoch chi ddarparu manylion eich pasbort dilys y DU yn 1.4?
  - ☐ **Naddo** – anfonwch dystiolaeth ⓣ – ewch i 3.11
  - ☐ **Do** – ni fydd angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth arall ynghylch cenedligrwydd – ewch i 3.11

**3.3 A ydych yn ddinesydd yr UE?**

- ☐ **Nac ydw**
- ☐ **Ydw** – anfonwch dystiolaeth ⓣ

**3.4 A ydych yn blentyn dinesydd o'r Swistir?** ⓖ

- ☐ **Nac ydw**
- ☐ **Ydw** – a fydd eich rhiant sy'n ddinesydd o'r Swistir yn byw yn y DU ar ddiwrnod cyntaf eich blwyddyn academaidd?
  - ☐ **Na fydd**
  - ☐ **Bydd** – anfonwch dystiolaeth ⓣ – ewch i 3.12

**3.5 A ydych chi neu'ch:**

- **gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu'ch**
- **rhiant(rhieni), eich llys-riant neu'ch**
- **plentyn, eich mab neu'ch merch yng nghyfraith, partner sifil eich plentyn**

**yn ddinesydd o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'n ddinesydd o'r Swistir sy'n gweithio, sydd wedi bod yn gweithio neu sy'n chwilio am waith yn y DU?** ⓖ

- ☐ **Nac ydw/Nac ydynt** – ewch i 3.6
- ☐ **Ydw/Ydynt** – dylech ddarparu manylion y gyflogaeth anfonwch dystiolaeth ⓣ

[ ]

darparwch fanylion am eich astudiaethau blaenorol

[ ]

# 3 Manylion preswylio – parhad

**3.5.1 Os ydych yn gweithio ar hyn o bryd, a ydych yn mynd i barhau i weithio yn ystod eich astudiaethau?**

☐ **Nac ydw** – ewch i 3.12

☐ **Ydw** – darparwch fanylion – anfonwch dystiolaeth ⓣ

ewch i 3.12

**3.6 Ydych chi'n blentyn i Twrcaidd gweithiwr sy'n gweithio yn y DU?** ⓖ

☐ **Nac ydw**

☐ **Ydw** – anfonwch dystiolaeth ⓣ – ewch i 3.12

**3.7 A ydych yn meddu ar 'statws preswylydd sefydlog' yn y DU?** ⓖ

☐ **Nac ydw**

☐ **Ydw** – pryd wnaethoch chi gael y statws hwn?

Diwrnod ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

anfonwch dystiolaeth ⓣ – ewch i 3.12

**3.8 A ydych chi neu'ch:**

- **gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu'ch**
- **rhiant (rhieni), eich llys-riant**

**wedi cael 'statws ffoadur' gan Lywodraeth y DU?** ⓖ

☐ **Nac ydw/Nac ydynt**

☐ **Ydw/Ydynt** – pryd fydd y statws hwn yn dod i ben? ⓖ

Diwrnod ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

anfonwch dystiolaeth ⓣ – ewch i 3.12

**3.9 A ydych chi neu'ch:**

- **gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu'ch**
- **rhiant (rhieni), eich llys-riant**
- **'caniatâ mynediad neu aros' yn y Deyrnas Unedig ar sail bywyd teuluol neu breifat neu**
- **'caniatâd mynediad neu aros' yn y Deyrnas Unedig ar sail bywyd personol neu**
- **caniatâd yn ôl disgresiwn ble na wnaethpwyd cais am loches neu**
- **Loches Dyngarol?** ⓖ

☐ **Nac ydw/Nac ydynt**

☐ **Ydw/Ydynt** – pryd fydd y statws hwn yn dod i ben? ⓖ

Diwrnod ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

anfonwch dystiolaeth ⓣ – ewch i 3.12

# 3 Manylion preswylio – parhad

**3.10** **A ydych chi neu'ch:**
- **gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu'ch**
- **rhiant (rhieni), eich llys-riant**

☐ **Nac ydw/Nac ydynt**

☐ **Ydw/Ydynt –** pryd fydd y statws hwn yn dod i ben? (g)

Diwrnod ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

anfonwch dystiolaeth (t) – ewch i 3.12

**! Os nad ydych yn ddinesydd y DU ac os na ofynnwyd i chi anfon unrhyw dystiolaeth yn yr adran hon, efallai na fyddwch yn gymwys i gael cyllid i fyfyrwyr gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Cyn i chi barhau i lenwi'r ffurflen hon, trowch at www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk am ragor o wybodaeth.**

**3.11** **Yn ystod y tair blynedd cyn dechrau**

☐ **Naddo**

☐ **Do**

**3.12** **Nodwch eich manylion preswylio**

Cyfeiriad llawn

Rhwng
Diwrnod ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

A
Diwrnod ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

Pam oeddech chi yno?

Cyfeiriad llawn

Rhwng
Diwrnod ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

A
Diwrnod ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

Pam oeddech chi yno?

# 3 Manylion preswylio – parhad

**3.13** **A wnaethoch chi symud i Gymru yn bennaf neu'n gyfan gwbl i ddibenion cael addysg?**

☐ **Naddo**

☐ **Do** – bydd angen i chi ein ffonio ar **0300 200 4050**

**3.14** **Ar unrhyw adeg ers 1 Medi 2021:**

- **a oes unrhyw un o'ch rhieni, eich llys rieni neu'ch gwarcheidwaid neu'ch**
- **gŵr, eich gwraig, eich partner wedi byw neu weithio y tu allan i'r DU a'r Ynysoedd, neu yn achos dinesydd UE, AEE neu o'r Swistir, y tu allan i AEE neu'r Swistir?**

Dylech sicrhau eich bod yn darparu manylion llawn. Os byddwch yn gadael unrhyw fylchau, efallai y bydd eich cais yn cael ei oedi nes byddwn yn cael yr wybodaeth y bydd angen i ni ei chael.

☐ **Nac oes**

☐ **Oes** – nodwch fanylion

Cyfeiriad llawn

Rhwng

Diwrnod ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

A

Diwrnod ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

Pam oedden nhw yno?

Cyfeiriad llawn

Rhwng

Diwrnod ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

A

Diwrnod ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

Pam oedden nhw yno?

## 4 Ynglŷn â'ch prifysgol neu'ch coleg a'ch cwrs

**4.1 Manylion y brifysgol neu'r coleg**

Os yw'ch cwrs mewn prifysgol sy'n cynnwys nifer o golegau, nodwch enw'r coleg yn gyntaf, ac yna, enw'r brifysgol.

Enw

Cyfeiriad llawn

**4.1.1 Os yw'r cwrs wedi cael ei freinio i brifysgol neu goleg arall, nodwch enw a chyfeiriad y brifysgol neu'r coleg arall**

Enw

Cyfeiriad llawn

**4.1.2 Rhowch enw llawn eich cwrs**

Dylech wirio enw eich cwrs gyda'ch prifysgol neu goleg. Os na ellir cadarnhau manylion y cwrs a roddwch i ni eto, efallai y bydd eich cyllid i fyfyrwyr yn cael ei oedi. Peidiwch â rhoi enw eich modwl yma.

**4.2 Y cymhwyster yr ydych yn disgwyl ei sicrhau**

Er enghraifft, BA (Anrh) Saesneg

**4.3 Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, pryd fyddwch chi'n dechrau eich astudiaethau?**

Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

**4.4 Pryd fyddwch yn gorffen blwyddyn olaf eich cwrs?**

Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

## 4 Ynglŷn â’ch prifysgol neu’ch coleg a’ch cwrs – parhad

**4.5** **A ydych chi ar fin cychwyn ar eich blwyddyn astudio gyntaf?**

☐ **Nac ydw**

☐ **Ydw** – ewch i 4.8

**4.6** **Pa flwyddyn astudio ydych chi ar fin cychwyn arni?**

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrthym pa flwyddyn o’ch astudiaethau ydych ar fin cychwyn arni, nid blwyddyn eich cwrs.

☐

**4.7** **Beth oedd y dyddiad pan wnaethoch chi gychwyn eich astudiaethau?**

Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

**4.8** **Swm llawn y ffioedd dysgu y mae’ch prifysgol neu’ch coleg yn ei godi arnoch chi yn ystod y flwyddyn academaidd hon** ⓖ

£

**4.9** **A yw’ch cwrs yn gwrs Addysg Cychwynnol Athrawon (ACA) ôl-raddedig?** ⓖ

☐ **Nac ydy**

☐ **Ydy**

**4.10** **A fyddwch chi’n cwblhau lleoliad yn rhan o’r Cynllun Turing neu’r rhaglen Erasmus+?**

☐ **Nac ydy**

☐ **Ydy** ⓖ

# ❗ Cyn i chi barhau...

## Beth sydd angen i chi ei wybod

Mae'r cyllid ar gyfer myfyrwyr rhan-amser y gallwch wneud cais amdano yn dibynnu ar ddwyster eich cwrs yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25:

- er mwyn bod yn gymwys i wneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu, rhaid bod dwyster y cwrs yn 25% o leiaf yn ystod y flwyddyn academaidd
- i fod yn gymwys i wneud cais am Grant Cwrs, rhaid bod dwyster y cwrs yn 50% o leiaf yn ystod y flwyddyn academaidd.

## Beth sydd angen i chi ei wneud nawr

Mae'r wybodaeth isod yn dweud wrthych pa adrannau o'r ffurflen sydd angen i chi eu llenwi.

| | |
|---|---|
| **Os ydych chi eisiau gwneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu yn unig** | Dylech lenwi adran 5 & 9. |
| **Os ydych chi eisiau gwneud cais am Grant Cwrs yn unig** | Dylech lenwi adrannau 6 i 9. |
| **Os ydych chi eisiau gwneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Cwrs** | Dylech lenwi adrannau 5 i 9. |

# 5 Eich cais am fenthyciad

**5.1 Nodwch swm y Benthyciad Ffioedd Dysgu yr ydych yn dymuno'i fenthyca**

Bydd unrhyw Fenthyciad Ffioedd Dysgu y byddwch yn ei fenthyca yn cael ei dalu i'ch prifysgol neu'ch coleg yn uniongyrchol. ⓖ

Os ydych yn dymuno manteisio ar yr uchafswm sydd ar gael, ticiwch y blwch ☐

Os ydych yn dymuno cael llai na'r uchafswm sydd ar gael, dylech nodi'r swm yr hoffech ei fenthyca

£ ______ (nodwch y swm)

**5.2 Manylion cyswllt**

Nodwch enwau a chyfeiriadau dau gyswllt. Dylai'r bobl a enwch fod yn byw mewn gwahanol gyfeiriadau a'r unig adeg y bydd rhywun yn cysylltu â nhw yw, er enghraifft, os byddwch yn symud cyfeiriad heb roi gwybod i ni. Rhaid i chi ddweud wrth y bobl hyn eich bod wedi eu henwi fel cysylltiadau.

**Cyswllt 1**

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Perthynas gyda chi

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn y cartref

**Cyswllt 2**

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Perthynas gyda chi

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn y cartref

# 6 Ynglŷn â'ch gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu'ch partner

**6.1 Statws priodasol**

Ticiwch un blwch sy'n disgrifio'ch statws priodasol presennol chi orau.

☐ Sengl

☐ Yn byw gyda phartner ⓖ

☐ Priod/partneriaeth sifil

Nodwch ddyddiad y briodas/partneriaeth sifil

Diwrnod ☐☐ - Mis ☐☐ - Blwyddyn ☐☐☐☐

☐ Wedi gwahanu ⓣ

☐ Wedi ysgaru/partneriaeth sifil wedi'i diddymu ⓣ

☐ Gŵr neu wraig weddw/partner sifil sy'n fyw ⓣ

**6.2 A fyddwch chi yn 25 oed neu'n hŷn ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd?**

☐ **Na fyddaf**

☐ **Byddaf**

**6.3 Manylion eich gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu'ch partner**

Rydym angen eich gŵr, gwraig, partner sifil neu'ch partnereich manylion i gyfrifo os allwch chi gael cyllid i fyfyrwyr. Rhaid i chi ddweud wrthynt eich bod wedi rhoi eu manylion i ni.

Ei berthynas gyda chi

☐ Gŵr ☐ Gwraig

☐ Partner sifil ☐ Partner

Teitl

☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Dyddiad geni

Diwrnod ☐☐ - Mis ☐☐ - Blwyddyn ☐☐☐☐

Man geni (enw'r dref neu'r pentref)

Cyfeiriad y cartref

Cod post

Rhif ffôn y cartref (gan gynnwys y cod ardal)

Iaith gohebiaeth a Ffefrir

☐ Cymraeg ☐ Saesneg

## 6 Ynglŷn â’ch gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu’ch partner – parhad

**6.4** **Cyfeirnod Cwsmer eich gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu’ch partner, os oes ganddo/ganddi un.**

☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

## 7 Manylion ariannol

**7.1** **A ydych chi neu’ch gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu’ch partner yn cael un neu fwy o fudd-daliadau’r wladwriaeth a restrir? ⓖ**

Os ydych chi neu’ch gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu’ch partner yn cael unrhyw rai o’r budd-daliadau a restrir, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth wedi’i llungopïo i ddangos pwy sy’n cael y budd-dal.

☐ **Nac ydw/Nac ydynt** - ewch i 7.2

☐ **Ydw/Ydynt** – ticiwch y blwch neu flychau priodol ac anfon tystiolaeth wedi ei ddyddio o fewn 4 wythnos i gyflwyno’r cais hwn ⓣ

- ☐ Credyd Cynhwysol Credyd Cynhwysol (nid Credydau Treth)
- ☐ Cymhorthdal Incwm
- ☐ Budd-dal Tai
- ☐ Lwfans Tai Lleol
- ☐ Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) yn Seiliedig ar Incwm
- ☐ Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) yn Seiliedig ar Incwm
- ☐ Gostyngiad i’r Dreth Gyngor

Ni fydd angen unrhyw fanylion ariannol pellach arnom – ewch i 7.8

## 7 Manylion ariannol – parhad

Defnyddiwch y dudalen hon i roi swm yr incwm a dderbyniwyd o **6 Ebrill 2023 i 5 Ebrill 2024.** Os nad oes gennych chi incwm ar gyfer unrhyw un o'r mathau incwm a restrir, rhowch £0 neu 'Amh'. **Ni allwn dderbyn eich cais os yw unrhyw un o'r blychau yn wag.**

**Pan fyddwch yn dweud swm wrthym, rhaid i chi anfon tystiolaeth wedi'i llungopïo i'w gefnogi.** Dim ond llungopïau o'ch dogfennau ddylech eu hanfon atom, gan y byddant yn cael eu dinistrio mewn ffordd ddiogel ar ôl iddynt eu harchwilio. Os byddwch yn anfon unrhyw ddogfennau gwreiddiol atom, bydd y rhain yn cael eu dinistrio hefyd.

**Swm a gafwyd cyn treth (incwm Gros) rhwng 6 Ebrill 2023 a 5 Ebrill 2024**

| | | Myfyriwr | Gŵr, gwraig, partner sifil neu bartner |
|---|---|---|---|
| 7.2 | **Incwm gros o gyflog** ⓖ ⓣ<br>Cyn didyniadau | £ | £ |
| 7.3 | **Incwm o hunangyflogaeth**<br>Dylech roi amcangyfrif os nad ydych yn siŵr ⓖ ⓣ | £ | £ |
| 7.4 | **Llog gros gan fanc neu gymdeithas adeiladu** ⓖ ⓣ<br>Cyn treth | £ | £ |
| 7.5 | **Incwm buddsoddi arall** ⓖ ⓣ<br>Cyn treth | **Math**<br><br>**Swm**<br>£ | **Math**<br><br>**Swm**<br>£ |
| 7.6 | **Incwm o eiddo, gosod neu rent** ⓣ | £ | £ |
| 7.6.1 | **Faint o hwn sydd trwy'r cynllun Rhentu Ystafell?** ⓖ ⓣ | £ | £ |
| 7.7 | **Unrhyw fath arall o incwm** ⓖ ⓣ | **Math**<br><br>**Swm**<br>£<br>**Math**<br><br>**Swm**<br>£ | **Math**<br><br>**Swm**<br>£<br>**Math**<br><br>**Swm**<br>£ |

## 7 Manylion ariannol – parhad

**7.8 Nodwch fanylion unrhyw blant fydd yn ddibynnol arnoch yn ariannol yn llwyr neu'n bennaf yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25.** ⓖ ⓣ

Mae incwm eich plentyn yn cynnwys ei incwm o bob ffynhonnell ar ôl Treth Incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer blwyddyn dreth **2022-23**.

| Enw llawn y plentyn | Dyddiad geni<br>DD MM BBBB | Ei berthynas gyda chi | Gyda phwy y bydd yn byw? | Incwm<br>blwyddyn dreth 2022-23 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**!** **Trowch at adran 8 i nodi eich manylion banc neu gymdeithas adeiladu, yna llenwch y telerau ac amodau yn adran 9.**

# 8 Manylion eich cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y DU

**8.1 Manylion y cyfrif**

Cod didoli

☐☐ - ☐☐ - ☐☐

Rhif y cyfrif

☐☐☐☐☐☐☐☐

Cofrestrif cymdeithas adeiladu (os yn berthnasol)

☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

**! Dim ond i dalu eich grant cwrs y byddwn ni'n defnyddio'r manylion banc. Fe delir ffioedd dysgu yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg.**

# 9 Telerau ac Amodau

Mae'r telerau ac amodau ("telerau") hyn a deddfwriaeth berthnasol yn weithredol o ran yr holl gyllid i fyfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/25.

Rwy'n deall bod yn rhaid i mi ddarllen y telerau penodol ynghylch cynnyrch cyllid i fyfyrwyr ar gael oherwydd y byddant yn effeithio arnaf os byddaf yn ymgeisio amdanynt ar unrhyw adeg yn y flwyddyn academaidd hon.

Rwy'n deall y gallai fy nghais am gyllid i fyfyrwyr gael ei ohirio oni bai fy mod yn llofnodi a dyddio'r telerau hyn.

## Contract y Benthyciad

1. Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y telerau hyn a bod Canllaw i Amodau a Thelerau ar gael ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/telerau-ac-amodau**
2. Rwy'n cadarnhau fod yr wybodaeth rwyf wedi ei darparu, hyd eithaf fy ngwybodaeth a chred, yn wir a chyflawn. Os nad yw, rwy'n deall ei bod yn bosibl na fyddaf yn derbyn cyllid i fyfyrwyr, y bydd unrhyw gefnogaeth yr wyf wedi ei chael yn cael ei thynnu yn ôl ac y gellir fy erlyn.
3. Rwy'n deall fod cyllid i fyfyrwyr yn cael ei ddarparu i mi gan Weinidogion Cymru (y "Rhoddwr Benthyciadau") sy'n cynnwys unrhyw bersonau yn gweithredu ar eu rhan ac unrhyw amnewidiad(au) dan adran 23(4) Deddf Addysg Uwch 1998 fel y'i diwygiwyd neu amnewidiwyd o bryd i'w gilydd (y "Ddeddf").
4. Rwy'n deall y bydd y telerau hyn, y Ddeddf a'r rheoliadau a wneir dan adran 22 y Ddeddf yn berthnasol i unrhyw gyllid i fyfyrwyr a roddir mi gan y Rhoddwr Benthyciadau.
5. Rwy'n deall bod "cyllid i fyfyrwyr" yn y telerau hyn yn golygu cefnogaeth ariannol trwy grant(iau) ac/neu fenthyciad(au) a wneir gan y Rhoddwr Benthyciadau dan y rheoliadau.
6. Rwy'n deall bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ("SLC") yn cyflawni swyddogaethau penodol ar ran y Rhoddwr Benthyciadau.

## Fy Ymrwymiadau

7. Rwy'n deall os ydw i:
   (i) wedi cyrraedd 18 oed; ac
   (ii) fy mod wedi mynd i gytundeb(au) am fenthyciad dan adran 22 y Ddeddf cyn i mi gyrraedd 18 oed,

   fy mod yn cytuno i "ddilysu" unrhyw a phob benthyciad myfyriwr trwy lofnodi'r telerau hyn. Mae hyn yn golygu fy mod yn cadarnhau fy mod wedi mynd i gytundeb(au) gyda'r Rhoddwr Benthyciadau ac yn cytuno i delerau unrhyw gytundeb(au) blaenorol o'r fath. Os ydw i wedi cyrraedd 18 oed ac yn gwrthod "dilysu" unrhyw gytundeb(au) blaenorol, rwy'n deall na fyddaf yn gymwys i gael unrhyw gyllid i fyfyrwyr pellach dan y rheoliadau.
8. Rwy'n cytuno i roi unrhyw wybodaeth i SLC y bydd angen i gefnogi'r cais yma am gyllid i fyfyrwyr ac/neu i gasglu ad-daliad.
9. Rwy'n cytuno i roi gwybod i SLC ar unwaith s bydd fy amgylchiadau'n newid mewn unrhyw fodd a allai effeithio ar fy hawl i gyllid i fyfyrwyr. Os na fyddaf yn gwneud hyn deallaf na fyddaf efallai yn cael taliadau pellach a bod posibilrwydd y bydd yn rhaid i mi ad-dalu'r cyllid i fyfyrwyr yr ydw i eisoes wedi'i gael. Rwy'n cytuno o'r dyddiad y byddaf yn cyflwyno fy nghais am gyllid i fyfyrwyr nes bydd fy menthyciad(au), ynghyd â'r holl ac unrhyw log, cosbau a thaliadau sy'n berthnasol, yn cael ei ad-dalu yn llawn, bod yn rhaid i mi hysbysu SLC am unrhyw newidiadau yn fy manylion personol (gan gynnwys fy rhif Yswiriant Gwladol) a'r manylion cyswllt a roddais.
10. Rwy'n cytuno os byddaf yn cael gordaliad o gyllid i fyfyrwyr, mae angen i mi ei ad-dalu'n llawn ac y gellir casglu unrhyw ordaliad o unrhyw gais pellach am gyllid i fyfyrwyr.
11. Rwy'n cytuno y byddaf yn ad-dalu'r Rhoddwr Benthyciadau unrhyw fenthyciad(au), ynghyd â phob ac unrhyw log, gosbau a thaliadau sy'n berthnasol. Rwy'n deall y bydd yr ad-daliad hwn yn ddyledus gennyf fi i'r Rhoddwr Benthyciadau fel dyled. Os byddaf yn torri unrhyw un o delerau fy menthyciad, rwy'n cytuno i dalu unrhyw gostau a chosbau perthnasol dan y Ddeddf a'r rheoliadau. Rwy'n deall y byddaf yn ad-dalu fy menthyciad(au) trwy system dreth y Deyrnas Unedig ("DU") ac/neu y gallaf ad-dalu SLC yn uniongyrchol. Os ydw i'n byw dramor, byddaf yn ad-dalu fy menthyciad(au) i SLC yn uniongyrchol.
12. Rwy'n cytuno fod unrhyw fenthyciad(au) a wneir i mi yn unol â'r rheoliadau unwaith y derbynnir fy nghais gan y Rhoddwr Benthyciadau yn gytundeb(au) rhyngof fi a'r Rhoddwr Benthyciadau. Rwy'n deall fy mod yn atebol ar gyfer fy menthyciad(au) ac y codir llog arnaf o daliad cyntaf y benthyciad gan y Rhoddwr Benthyciadau.
13. Rwy'n cytuno i roi gwybod i SLC os byddaf yn gadael y DU i fyw tu allan i'r DU neu os am ba bynnag reswm arall y byddaf tu allan i system dreth y DU am fwy na thri mis.

## Camau Cyfreithiol a Deddfau Perthnasol

14. Os bydd galw am unrhyw achos cyfreithiol, rwy'n cytuno mai deddfau Cymru a Lloegr fydd yn weithredol ac y bydd y llysoedd yn y rhan honno o'r DU yn clywed unrhyw achos cyfreithiol. Os yw fy nghyfeiriad tu allan i'r DU, bydd deddfau'r rhan o'r DU ble mae fy narparwr addysg wedi ei leoli yn berthnasol a bydd y llysoedd yn y rhan honno o'r DU yn clywed unrhyw achos cyfreithiol. Rwy'n cytuno bod gan y Rhoddwr Benthyciadau'r hawl i gymryd camau cyfreithiol yn fy erbyn mewn unrhyw lys arall gydag awdurdod.

### Rhannu Gwybodaeth

15. Os ydw i'n torri'r telerau hyn ac/neu'r rheoliadau, rwy'n cytuno y gall y Rhoddwr Benthyciadau rannu gwybodaeth amdanaf a fy nghyfrif gydag unrhyw drydydd parti yn cynnwys y llywodraeth neu asiantaeth llywodraeth gwlad arall, allai helpu fy lleoli ac/neu helpu gweithredu i adfer unrhyw daliadau sy'n ddyledus.
16. Rwy'n cadarnhau ble rwyf wedi darparu unrhyw wybodaeth bersonol ynghylch unrhyw berson arall yn fy nghais am gyllid i fyfyrwyr, fy mod wedi gwneud hynny gyda'i ganiatâd neu ei chaniatâd.
17. Rwy'n deall y bydd SLC yn prosesu fy nata personol yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd sydd ar gael ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd** a allai gael ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd.

### Lwfans i Fyfyrwyr Anabl ("DSA")

Mae'r adran hon yn berthnasol os byddaf yn ymgeisio am DSA yn y flwyddyn academaidd hon.

18. Rwy'n deall y bydd rhaid defnyddio unrhyw offer a dderbyniaf trwy Lwfans i Fyfyriwr Anabl ar gyfer fy nghwrs astudiaeth a fy mod yn gyfrifol am dalu unrhyw gostau atgyweirio.
19. Rwy'n deall os byddaf yn cydsynio i SLC ddarparu ffynhonnell fy offer a chefnogaeth, y gall SLC dalu cyflenwyr unrhyw offer cymeradwy yn uniongyrchol.
20. Rwy'n deall gyda fy nghydsyniad, y gall SLC wneud taliadau i'r ganolfan asesu anghenion ar fy rhan.
21. Rwy'n deall gyda fy nghydsyniad y gall SLC wneud taliad uniongyrchol ar fy rhan i drydydd partïon yn darparu unrhyw wasanaeth neu gefnogaeth gymeradwy arall i mi.
22. Os nad ydw i'n cytuno i SLC dalu cyflenwyr offer, cefnogaeth neu wasanaethau eraill ar fy rhan, rwy'n deall y byddaf yn gyfrifol am ddiwallu costau unrhyw offer, cefnogaeth neu wasanaethau cymeradwy eraill gan ddefnyddio fy lwfans DSA. Mae SLC yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth fy mod wedi derbyn offer, cefnogaeth neu wasanaethau eraill parthed fy DSA.

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU)

Eich llofnod

**X**

Dyddiad heddiw

Diwrnod ☐☐ - Mis ☐☐ - Blwyddyn ☐☐☐☐

## 10 Cwestiynau gwirfoddol

**Mae'r cwestiynau canlynol yn rhai gwirfoddol – nid oes yn rhaid i chi eu hateb. Ni fydd eich penderfyniad i'w hateb neu beidio yn effeithio ar ein hasesiad o'ch hawl i gael cymorth ariannol.**

Os byddwch yn ateb cwestiynau 10.1 a 10.2, fe ddefnyddir yr wybodaeth i helpu Gweinidogion Cymru i ddatblygu eu polisïau yn y dyfodol. Bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru hefyd yn defnyddio'ch ateb i gwestiwn 10.2 i wella eu gallu i gyflawni gwasanaethau addysgol addas a hygyrch sy'n bodloni anghenion amrywiol eu cymunedau yn y dyfodol.

**10.1 A oes gan unrhyw rai o'ch rhieni unrhyw gymwysterau addysg uwch, er enghraifft, graddau a diplomâu neu dystysgrifau addysg uwch?**

Mae hyn yn cynnwys eich rhieni naturiol, eich rhieni mabwysiadol, eich llys rieni, partneriaid eich rhieni a'ch gwarcheidwaid.

- ☐ Nac oes
- ☐ Oes
- ☐ Dim syniad

**10.2 Sut fyddech yn disgrifio'ch cefndir ethnig?**

**Gwyn**

- ☐ Prydeinig
- ☐ Gwyddelig
- ☐ Unrhyw gefndir gwyn arall

**Du neu Ddu Prydeinig**

- ☐ Affricanaidd
- ☐ Caribïaidd
- ☐ Unrhyw gefndir du arall

**Cymysg**

- ☐ Gwyn a du Caribïaidd
- ☐ Gwyn a du Affricanaidd
- ☐ Gwyn ac Asiaidd
- ☐ Unrhyw gefndir cymysg arall

**Tsieineaidd neu grŵp ethnig arall**

- ☐ Tsieineaidd
- ☐ Unrhyw grŵp arall

**Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig**

- ☐ Indiaidd
- ☐ Pacistanaidd
- ☐ Bangladeshaidd
- ☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall

# Rhestr gyfeirio


## Cyn i chi anfon eich ffurflen, dylech sicrhau eich bod wedi:



Ticiwch ☐

### Nodi manylion eich pasbort ar dudalen 3

Os nad oes gennych chi basbort dilys, bydd angen i chi anfon tystiolaeth amgen atom. Os na allwn gadarnhau eich manylion personol, ni allwn roi benthyciad a/neu grant i chi.



Ticiwch ☐

### Cynnwys pob dogfen yr ydym wedi gofyn amdani i gefnogi'ch cais

Os na fyddwn yn cael yr holl wybodaeth y bydd angen i ni ei chael, bydd eich cais yn cael ei oedi.



Ticiwch ☐

### Darllen, llofnodi a dyddio'r telerau ac amodau ar dudalen 20

Os na fyddwch yn llofnodi'r telerau ac amodau, ni allwn roi benthyciad a/neu grant i chi.

Ar ôl ei llenwi, dylech ddychwelyd eich ffurflen i:

**Cyllid Myfyrwyr Cymru**
**Blwch Post 211**
**Cyffordd Llandudno**
**LL30 9FU**

Dylech sicrhau bod eich cais a'ch holl dystiolaeth yn cael eu pwyso a'ch bod yn talu'r costau postio yn llawn.

**Cofiwch ofyn am brawf postio!**

# Rhoi caniatâd i rywun gysylltu â ni ar eich rhan

Os hoffech roi caniatâd i berson enwebedig siarad â ni am eich cyfrif, gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i sefydlu Caniatâd i Rannu (CTS) ar eu cyfer.
Gallai person enwebedig fod yn:

- berson unigol fel eich rhiant, rhiant maeth, brawd neu chwaer neu bartner; neu
- cynghorydd prifysgol/coleg neu gynghorydd trydydd parti. Gallai cynghorydd trydydd parti fod yn weithiwr cymdeithasol, cynghorydd personol neu gynghorydd elusen (o sefydliadau fel WeBelong, Become neu StandAlone).

## Beth sydd angen i'ch unigolyn enwebedig ei wybod

Pan fydd yn ein ffonio, bydd angen i'r unigolyn basio ein dilysiad diogelwch gan ddefnyddio'r manylion a roddwch ar y ffurflen hon. Bydd yn gallu trafod a gofyn am:

- unrhyw wybodaeth am eich cyfrif, ac eithrio eich manylion banc
- statws eich cais ac unrhyw dystiolaeth sydd ei hangen arnom
- gohebiaeth a anfonwyd atoch neu ffurflenni cais ar eich rhan

## Beth sydd angen i mi ei wneud?

**Adran A -** Cwblhewch hwn os ydych am roi caniatâd i berson unigol.

**Adran B -** Cwblhewch hwn os ydych am roi caniatâd i gynghorydd prifysgol/coleg neu gynghorydd trydydd parti.

Gallwch sefydlu CTS ar gyfer unigolyn unigol a chynghorydd gan ddefnyddio'r un cod mynediad.

Os caiff unrhyw fanylion ar y ffurflen hon eu hepgor, ni allwn sefydlu CTS.

Unwaith y byddwch wedi llenwi'r ffurflen hon, a fyddech cystal â'i dychwelyd gyda'ch ffurflen gais.

## A oes ffordd i ganiatáu i drydydd parti ddiweddaru fy nghyfrif?

Gallwch roi Atwrneiaeth (PoA) i drydydd parti. Mae Atwrneiaeth yn ddogfen swyddogol lle gallwch benodi atwrnai sy'n caniatáu iddo ryddhau neu ddiweddaru gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch cyfrif. Rhaid i Atwrneiaeth gynnwys y cyfnod penodol y gall y trydydd parti weithredu fel atwrnai ar ei gyfer, a'r tasgau penodol y gall eu cyflawni. Gallwch ddal i lenwi'r adrannau o'r ffurflen isod ac anfon copi o'r ddogfen Atwrneiaeth atom. Fel uchod, rhaid i'r person sy'n dal Atwrneiaeth basio ein dilysiad diogelwch.

## Rwyf wedi newid fy meddwl ac nid wyf am roi caniatâd mwyach. Beth ddylwn i wneud?

Gallwch ddileu eich caniatâd ar unrhyw adeg. I wneud hyn, ffoniwch ni ar **0300 200 4050** neu ysgrifennwch atom yn:

**10 Clyde Place**
**Glasgow**
**G5 8DF**

Unwaith y byddwch yn dweud wrthym eich bod am ddileu eich caniatâd, ni fydd eich person enwebedig yn gallu cyrchu gwybodaeth eich cyfrif.

## Adran A - Caniatâd i berson unigol

Rhowch fanylion y person unigol. Pan fydd yn ffonio, bydd angen cadarnhau eich enw llawn, eich cyfeirnod cwsmer a’r manylion hyn yr ydych yn eu darparu cyn cyrchu’ch cyfrif.

| | |
|---|---|
| Enw cyntaf | |
| Cyfenw | |
| Dyddiad geni (DDMMBBBB) | ☐☐/☐☐/☐☐☐☐ |
| Perthynas â chi | |
| Cod mynediad/cyfrinair (dylai hyn fod yn wahanol i\\’r cyfrinair a ddefnyddiwch i fewngofnodi i’ch cyfrif) | |
| Cyfeiriad cyswllt | |
| Cod Post | |
| Dyddiad rydych am gael caniatâd i fod yn weithredol ohono | ☐☐/☐☐/☐☐☐☐ |
| Dyddiad yr ydych am gael caniatâd i ddod i ben (gellir diweddaru/estyn hwn unrhyw bryd) | ☐☐/☐☐/☐☐☐☐ |

## Adran B - Caniatâd i gynghorydd prifysgol neu drydydd parti

Rhowch fanylion y brifysgol neu gynghorydd trydydd parti. Pan fydd yn ffonio, bydd angen cadarnhau eich enw llawn, eich cyfeirnod cwsmer a'r manylion hyn yr ydych yn eu darparu cyn cyrchu'ch cyfrif.

**Manylion cynghorydd**

Enw cyntaf y cynghorydd

Cyfenw'r cynghorydd

Enw sefydliad

Adran

Teitl swydd

**Manylion mynediad**

Cod mynediad/cyfrinair
(dylai hyn fod yn wahanol i\\'r cyfrinair a ddefnyddiwch i fewngofnodi i'ch cyfrif)

Dyddiad rydych am gael caniatâd i fod yn weithredol ohono

☐☐/☐☐/☐☐☐☐

Dyddiad yr ydych am gael caniatâd i ddod i ben (gellir diweddaru/estyn hwn unrhyw bryd).

☐☐/☐☐/☐☐☐☐

## Datganiad y Myfyriwr

Rwy'n cytuno y gall y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyfyngedig gyfnewid gwybodaeth am fy nghyfrif cyllid myfyrwyr gyda'r person a enwir.

Rwy'n cadarnhau ble rwyf wedi darparu unrhyw wybodaeth bersonol parthed trydydd parti, rwyf wedi eu hysbysu o hyn.

Eich cyfeirnod cwsmer

☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU)

Eich llofnod (mewn inc)

X

Dyddiad heddiw (DDMMBBBB)

☐☐/☐☐/☐☐☐☐